# RHAN GYNTAF – YR WYTHNOS

## 1. DYDD SUL - DYDD Y CYHOEDDI

**Darllen:** Marc 11: 1-11,
Mathew 21: 1-11,
Luc 19: 28-40, Ioan 12: 12-29

'*Gorchymynnodd iddynt beidio â dweud wrth neb*' (Marc 7: 36). Dywedwyd rhywbeth tebyg gan Iesu deirgwaith yn Efengyl Marc. Er i'w ddymuniad gael ei anwybyddu, erys y ffaith iddo ddymuno osgoi cyhoeddusrwydd a chadw popeth yn dawel, am nad oedd 'ei amser' wedi cyrraedd.

Rhyfedd felly yw darllen am ddigwyddiadau dydd cyntaf yr wythnos. Cefnodd ar ddirgelwch a distawrwydd wrth iddo gynllunio gorymdaith gyhoeddus, swnllyd. Mae'n gwbl amlwg bod amseriad a lleoliad yr orymdaith wedi eu dewis gyda gofal mawr, a bod trefniadau manwl wedi eu gwneud ymlaen llaw.

Jerwsalem oedd nod ei orymdaith, a'r ddinas yn tynnu pererinion o bob rhan o'r wlad ac ymerodraeth Rhufain a phlant y Diaspora Iddewig yn dychwelyd adref ar ymweliad. Wrth i'r pererinion droi yn ôl tuag adref, byddai sôn a siarad am holl ddigwyddiadau wythnos y Pasg ym mhob pentref a thref ar y ffordd, a'r straeon yn cael eu hadrodd a'u hailadrodd droeon.

Diwrnod cyntaf wythnos y Pasg Iddewig oedd y dyddiad - y diwrnod a elwir gennym yn 'Sul y Blodau'. Un cwestiwn mawr fyddai ar feddwl y pererinion hyn wrth iddynt ddod at y ddinas a'i theml, '*Ai yn awr y daw'r Meseia*?' Byddai pawb - offeiriaid, athrawon y Gyfraith, y Selotiaid a'r werin bobl - yn hiraethu am glywed iddo ddod. A rhaid i un person arall fod yno hefyd, sef rhaglaw Rhufeinig talaith Jwdea a'i filwyr, cynrychiolwyr Cesar, dyn grymusaf y byd. Adeg oedd hon hefyd pan fyddai teimladau gwladgarol yn berwi i'r wyneb i herio Rhufain, a'r Rhufeiniaid yn bwriadu dangos eu grym i bawb.

Gwawriodd y dydd o'r diwedd. Roedd Iesu a'i ddisgyblion yn aros ym mhentref Bethania, a oedd yr ochr arall i Fynydd yr Olewydd i'r ddinas, gan letya yn nhw Simon y Gwahanglwyf, gyda Martha, Mair a Lasarus. Saif Bethania hyd heddiw ar y briffordd ddwyreiniol i Jerwsalem

o'r gogledd, ar hyd Dyffryn yr Iorddonen. Byddai llawer iawn o bererinion o Alilea yn rhodio'r ffordd honno drwy'r pentref, ac yn arbennig ar y Sul, byddai torfeydd mawrion yn cerdded y ffordd.

Ffarweliodd Iesu â'i ffrindiau a'r pentref yn gynnar ar fore cyntaf yr wythnos a dringo'r bryn at y pentref nesaf, sef Bethphage, ar ffin fwrdeistrefol dinas Jerwsalem. Danfonodd ddau ddisgybl o'i flaen i gasglu asyn a oedd yn barod yno ar ei gyfer yno. '*Y mae ar y Meistr ei angen'* oedd y cyfrinair, a chawsant ddod â'r anifail yn gwbl ddidrafferth. Bwriodd y disgyblion eu mentyll ar yr asyn ac eisteddodd Iesu arno. Dyma'r tro cyntaf i ni gael sôn amdano'n teithio ar gefn anifail; cyn hyn, cerddodd i bobman. Aeth yr anifail allan yn dawel i'r ffordd ac i ganol y pererinion. Nid oedd angen iddo ddweud dim wrth y dorf. Llefarodd ei weithred yn gwbl eglur a'r dorf yn ymateb ar unwaith. Mudchwarae o ddifrif sydd yma, gan ddefnyddio darluniau o'r Hen Destament: '*Edrychwch, gwrandewch*,' meddai, '*Gwelwch, clywch!*' Mae'r daith symbolaidd hon i Jerwsalem ar hyd godrai Mynydd yr Olewydd yn llawn arwyddion a negeseuon.

Ni eisteddodd neb erioed ar yr asyn hwn, ac fel y fuwch yn y seremoni glanhau, '*heb unrhyw ddiffyg na nam arni, ac na fu erioed dan iau*' (Numeri 19: 2). Mae'n gwbl addas i frenin farchogaeth arno. Yn yr un modd ar ddiwedd yr wythnos, '*gosodwyd ef mewn bedd wedi ei naddu lle nad oes neb hyd hynny wedi gorwedd*' (Luc 23: 53). Yn ôl Mathew, cyflawni proffwydoliaeth Secharia 9: 9-17 sydd yma: '*Llawenha'n fawr ferch Seion, bloeddia'n uchel, ferch Jerwsalem. Wele dy frenin yn dod atat a buddugoliaeth a gwaredigaeth, yn ostyngedig ac yn marchogaeth ar asyn, ar ebol llwdn asen. Tyr ymaith y cerbyd o Effraim a'r meirch o Jerwsalem; a thorrir ymaith y bwa rhyfel. Bydd yn siarad heddwch â'r cenhedloedd, bydd ei lywodraeth o fôr i fôr, o'r Ewffrates hyd eithaf y ddaear*.'

Pwy oedd '*Merch Seion'*? Seion oedd mynydd sanctaidd Jerwsalem a '*Merch*' oedd enw barddol y proffwydi ar y tlodion hyn, y rhai dibwys. Neg es i'r israddol sydd yma: mae'r Meseia ar ei ffordd at dlodion a phobl ddibwys y llawr. Marchogodd Iesu i'w canol ar gefn asyn, eu Brenin yn dod mewn hedd. Anifail rhyfel oedd y ceffyl, anifail estron o'r Aifft; asynnod oedd gan yr Iddewon. Oni farchogodd y Barnwyr o'u cwmpas ar gefn asynnod? Arwydd bod brenin yn dod i ddial neu i ryfela byddai ei weld yn marchogaeth ar geffyl; dod mewn heddwch fyddai Brenin ar gefn asyn.

Deallodd y dorf ystyr ei weithred ar unwaith gan ymuno ynddi, gyda rhai yn gosod eu mentyll ar y ffordd ac eraill yn taenu canghennau palmwydd o'i flaen, arwyddion Beiblaidd eglur eto. Disgrifia 2 Brenhinoedd 9: 13, gyhoeddi Jehu yn Frenin Israel: "*Yna cipiodd pob un yn ei ddilledyn a'i roi dano ar ben y grisiau, a chwythu utgorn a dweud, 'Jehu sydd frenin*!" Yn 1 Maccabeaid 13: 51, yn yr Apocryffa, ceir disgrifiad o Simon Macabews yn mynd i mewn i Jerwsalem ar ôl un o'i fuddugoliaethau mawr: '*Aeth yr Iddewon i mewn i'r ddinas â chytgan o fawl a chwifio cangau o'r palmwydd, gyda liwtiau, symbalau a sitherau, gydag emynau ac anthemau, i ddathlu eu hymwared o elyn cryf*.' Gwaeddodd y dorf, '*Hosanna! Bendigedig yw'r un sy'n dod yn enw'r Arglwydd. Bendigedig yw'r deyrnas sy'n dod, teyrnas ein tad Dafydd. Hosanna yn y goruchaf!*' (Marc 11: 9). Daeth brawddeg gyntaf y dorf o Salm 118: 26, a'r olaf o'r Salmau Hallel; a chawsant eu canu ar y gwyliau arbennig. Cred rhai i'r Salm hon gael ei hysgrifennu i ddathlu buddugoliaeth Jwdas Macabews dros Antiochiws Epiffanes, Brenin Syria (a geisiodd ddileu Iddewiaeth a throi'r genedl yn Roegaidd, gan halogi'r Deml) yn y flwyddyn 163 CC. Bryd hynny, glanhawyd ac ail-gysegrwyd y Deml. Os felly, cân i gyfarch concwerwr yw'r Salm hon. '*Gwared ni'* neu '*Achub ni'* yw ystyr wreiddiol y gair '*Hosanna*', ond erbyn amser Iesu roedd y gair wedi ei gysylltu â dyfodiad y Meseia. Cafodd Iesu ei groesawu gan bobl yn chwifio canghennau palmwydd a'i gyfarch fel Mab Dafydd, yr un a oedd i ail-sefydlu ei deyrnas.

Cyrhaeddodd pawb drothwy'r Deml ac aeth Iesu i mewn. I fynd yn ôl at Salm 118: 26-27: "*Bendigedig yw'r un sy'n dod yn enw'r Arglwydd. Bendithiwn chwi o dw'r Arglwydd. Yr Arglwydd sydd Dduw, rhoes oleuni i ni. Â changau ymunwch yn yr orymdaith hyd at gyrn yr allor."* Yr oedd yna ddisgwyl i'r Meseia ddod i'r Deml, onid proffwydodd Malachi: "*Wele fi'n anfon fy nghennad i baratoi y ffordd o'm blaen; ac yn sydyn fe ddaw'r Arglwydd yr ydych yn ei geisio i'w deml; y mae cennad y cyfamod yr ydych yn hoff ohono yn dod,' medd yr Arglwydd. 'Pwy all ddal dydd ei ddyfodiad, a phwy a saif pan ymddengys?'* Dod y mae'r dyn hwn ar gefn asyn, gan hawlio ei le fel un Eneiniog Duw a herio'r sefydliad crefyddol a gwleidyddol i gyhoeddi ei hawl i lanhau'r Deml, fel y gwnaeth Jwdas Macabews. Ond, yn wahanol i Macabews, hawlio calonnau dynion y mae Iesu, nid gorsedd eu cenedl. Llwyddodd i wneud hynny yn y ffordd ddramatig symbolaidd hon gan sicrhau iddo'i hun y cyhoeddusrwydd mwyaf posibl. Yn ddiau, sicrhaodd sylw, nid ei

gefnogwyr yn unig, ond hefyd rhai na wyddai dim amdano, yn ogystal â sylw ei elynion.

Yn y Deml, edrychodd o'i gwmpas ar bopeth oedd yno - torfeydd o bererinion ffyddlon, syml, marchnad yr archoffeiriaid yn gwerthu anifeiliaid i'w haberthu a chyfnewidfeydd yr archoffeiriaid ar gyfer cael arian 'sanctaidd' y Deml fel offrwm. Wedyn, aeth yn ôl i'r llety ym Methania gyda'i ddisgyblion i aros yno dros nos.

**Gweddi:**

*Bendigedig yw'r un sy'n dod yn enw'r Arglwydd.*
*Arglwydd Dduw mewn mawrhydi, gwir Frenin nef a llawr,*
*dy awydd di yw teyrnasu yng nghalonnau dynion.*
*Cynorthwya ni i roi ein hunain yn ddiatal*
*i'r hwn a ddaeth i Jerwsalem ar gefn asyn a chael coron ddrain;*
*canys yn awr y mae yn eistedd gyda thi mewn gogoniant,*
*i deyrnasu byth bythoedd. Amen.*
*(Roger Pickering)*